# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 5 Mai 2015** |
| Amser: | **08.30 - 08.36** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Preifat

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Paul Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth am y newidiadau i Fusnes y Llywodraeth ddydd Mercher.

Nododd y Rheolwyr Busnes na fyddai unrhyw gyfnod pleidleisio.

Byddai pob pleidlais mewn perthynas â'r Bil Cynllunio (Cymru) yn digwydd yn ystod trafodion Cyfnod 3.

Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Rheolwyr Busnes ei bod yn bwriadu atal y trafodion am egwyl o ddeng munud cyn dechrau ar drafodion Cyfnod 3.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Nododd y Pwyllgor Busnes Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i amserlennu'r eitemau a ganlyn:

**Dydd Mercher 3 Mehefin 2015 –**

- Dadl Cyfnod 1 ar y Bil Lefelau Diogel Staff Nyrsio (Cymru) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru (60 munud)

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ail-amserlennu'r eitem ganlynol o fusnes

**Dydd Mercher 13 Mai 2015 –**

- ~~Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)~~ – *Ni chyflwynwyd unrhyw Gynigion*

- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

**Dydd Mercher 20 Mai 2015 –**

- ~~Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)~~

- Amser a neilltuwyd i’r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

3.4 Dadl Aelod Unigol

Ni chyflwynwyd unrhyw gynigion gan Aelodau unigol ar gyfer dadl ar 13 Mai.

Ystyriodd y Rheolwyr Busnes mai digwyddiad unigol yw'r diffyg diddordeb ar yr achlysur hwn, yn enwedig gan y trefnwyd wyth Dadl Aelod Unigol yn ystod y pum mis diwethaf, yn hytrach nag un bob hanner tymor fel fu'r arfer blaenorol. Cytunodd y Rheolwyr Busnes y dylai'r ddadl nesaf gan Aelod unigol gael ei chynnal ddydd Mercher 8 Gorffennaf 2015.

## 4 Deddfwriaeth

4.1 Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru)

Cadarnhaodd y Rheolwyr Busnes eu penderfyniad mewn egwyddor ar 21 Ebrill i gyfeirio Bil yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) i'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar gyfer ystyriaeth Cyfnod 1, a chytunwyd ar 9 Hydref 2015 fel terfyn amser i'r Pwyllgor adrodd ar Gyfnod 1, a 10 Rhagfyr 2015 fel y dyddiad ar gyfer cwblhau trafodion Cyfnod 2 y Pwyllgor.

## 5 Pwyllgorau

5.1 Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Cais i ymweld â Chaeredin

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gais gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i ymweld â Chaeredin i fynd i gyfarfod o Bwyllgor Archwilio Cyhoeddus Senedd yr Alban ddydd Mawrth 9 Mehefin tan ddydd Mercher 10 Mehefin, 2015.